Tara Smith, Cyfarwyddwr Pobl ac Adnoddau

Gwybodaeth am Brif Weithredwr a chyfarwyddwyr yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB).

Ymunodd Tara Smith â'r ASB ym mis Mehefin 2022.

Cyn hynny bu'n gweithio yn yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel Cyfarwyddwr Cyllid Strategol yn arwain ar strategaeth a chyngor cyllid yr Adran, adolygiadau o wariant a digwyddiadau cyllidol, a Chronfa Gymdeithasol Ewrop, a hynny ers mis Gorffennaf 2020. Roedd ei rôl hefyd yn cynnwys Cynllunio a Chynllunio Busnes ar gyfer y Gr?p Cyllid. Tara oedd yr Uwch noddwr ar gyfer y Gr?p Ymgysylltu â Phobl Anabl. Cyn hynny, bu Tara yn Gyfarwyddwr Cyllid, Gwasanaethau Cyllid a Bancio, ac roedd hi'n gyfrifol am adroddiadau ariannol a pherfformiad yr Adran, Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, darpariaeth gwasanaethau talu a bancio, rheoli darparwyr gwasanaethau ar y cyd a goruchwylio gwasanaethau rheoli dyledion yr Adran.

Mae Tara yn Gyfrifydd Siartredig a dechreuodd ei gyrfa gyda PwC, gan weithio yn Iwerddon, Canada a'r Deyrnas Unedig am fwy na 10 mlynedd gan ganolbwyntio ar gleientiaid ym meysydd gweithgynhyrchu bwyd a gwasanaethau ariannol. Wedi hynny, bu'n gweithio am bum mlynedd fel Uwch Reolwr Cyllid gyda chwmni gwasanaethau ariannol FTSE250, Provident Financial Group.

Ymunodd â'r Gwasanaeth Sifil yn 2006 gan weithio yn yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol mewn ystod o rolau ym maes cyllid.

Mae Tara yn aelod gweithgar o Swyddogaeth Gyllid y Llywodraeth, yn aelod o'r Pwyllgor Pobl ac yn Ddirprwy Gyfarwyddwr y Fforwm Doniau.

Ers mis Gorffennaf 2021, mae Tara wedi bod yn aelod cyfetholedig o bwyllgor Prifysgol Leeds y Drindod, ac o fis Awst 2022, bydd yn ymuno fel Llywodraethwr ac Ymddiriedolwr.